O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 270(Cy.49)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000") (fel y'u mewnosodwyd gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009) at sefydliadau yn sector addysg uwch Cymru. Mae'r darpariaethau o Ddeddf 2000 sy'n cael eu cymhwyso (adrannau 33A i 33L, 33N a 33O) yn ymwneud â'r cwricwlwm lleol i bersonau 16 i 19 oed.

Mae'r Rheoliadau'n sicrhau bod personau 16 i 19 oed sy'n ymgymryd ag addysg uwchradd neu addysg bellach mewn sefydliad addysg uwch yn elwa ar yr un hawl i ddewis a dilyn cyrsiau astudio mewn cwricwlwm lleol â'r personau hynny sy'n ymgymryd â'u haddysg mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach. Mae'r sefydliadau addysg uwch bellach o dan yr un dyletswyddau o ran darparu'r cwricwlwm lleol ag ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 270 (Cy. 49)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011

Gwnaed *08 Chwefror 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

09 Chwefror 2011

Yn dod i rym *4 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 33Q o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 4 Mawrth 2011.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "corfforaeth addysg uwch" yr ystyr a roddir i "*higher education corporation"* gan adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**2**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act"*) yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations"*) yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol i Fyfyrwyr 16 i 18 oed) (Cymru) 2011(**3**);

(**1**) 2000 p.21. Mewnosodwyd adran 33Q gan adran 38 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).
(**2**) 1992 p.13.
(**3**) O.S. 2011/107 (Cy. 26).

ystyr "sefydliad AU" ("*HE institution"*) yw sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch.

Cymhwyso cwricwlwm lleol sefydliadau AU

3.—(1) Pan fo sefydliad AU yng Nghymru yn darparu addysg uwchradd neu addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed, mae adrannau 33A i 33L, 33N a 33O o Ddeddf 2000(**1**) a'r Rheoliadau yn gymwys o ran y sefydliad AU hwnnw gyda'r addasiadau a nodir yn y paragraffau a ganlyn.

(2) Mae'r cyfeiriadau at "sefydliad", "institution" neu "sefydliadau", "institutions" yn adrannau 33C(2), 33D(1), (2) a (4), 33E(4), 33F, 33G(1) a (3), 33H, 33I(1) a (3), 33J(1), 33K(5) a (6) a 33L o Ddeddf 2000 ac yn y Rheoliadau yn effeithiol fel petaent yn cynnwys cyfeiriadau at sefydliad AU sy'n darparu addysg uwchradd neu addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed.

(3) Mae'r cyfeiriad at "relevant students" yn adran 33C(2) o Ddeddf 2000 yn effeithiol, o ran sefydliad AU, fel petai'n gyfeiriad at fyfyrwyr y mae'r sefydliad AU yn sefydliad perthnasol iddynt (yn unol â phenderfyniad o dan adran 33D o Ddeddf 2000).

(4) Mae'r cyfeiriadau at "governing body" yn adrannau 33D(2), 33F(1), 33G(3), (4), 33H, 33I(3), (4), 33J(1)(c), 33K(4)(c) a (5)(b) a 33L o Ddeddf 2000 yn effeithiol, o ran sefydliad AU, fel petaent yn cynnwys cyfeiriadau at y bwrdd, y pwyllgor neu'r personau eraill sy'n gyfrifol am reoli'r gyfadran, yr adran neu'r coleg yn y sefydliad AU sef cyfadran, adran neu goleg sy'n darparu'r addysg uwchradd neu'r addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed.

(5) Mae adran 33K(4) o Ddeddf 2000 yn effeithiol fel petai'r canlynol wedi'i ychwanegu ar ddiwedd yr is-adran honno—

"; and

(d) the board, committee or other persons responsible for the management of a faculty, department or college of an HE institution, which faculty, department or college delivers the secondary education or further education for students who have not attained the age of nineteen provided by the institution and which faculty, department or college is situated within the area of the authority.".

(**1**) Mewnosodwyd adrannau 33A i 33L, 33N a 33O o Ddeddf 2000 gan adrannau 22 i 33, 35 a 36 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

(6) Mae'r cyfeiriadau at "pennaeth sefydliad" neu "principal" yn adrannau 33F, 33G(1), (4), 33I(1), (4) a 33J(1) o Ddeddf 2000 ac yn y Rheoliadau yn effeithiol, o ran sefydliad AU, fel petaent yn gyfeiriadau at bennaeth y gyfadran, yr adran neu'r coleg yn y sefydliad AU sef cyfadran, adran neu goleg sy'n gyfrifol am ddarparu'r addysg uwchradd neu'r addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

8 Chwefror 2011